# PRIF NEGESEUON YR ASESIAD LLESIANT

## POBLOGAETH AC IAITH

**Rhagwelir mwy o bobl dros 75 oed i'r dyfodol** sy'n golygu fod angen cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau bod unigolion yn aros yn iach am gyfnod hirach er lles yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal.

Ystyrir Ynys Môn yn gadarnle i'r Gymraeg ond gwelir **gostyngiad yn y canran o siaradwyr dros y ddegawd ddiwethaf.** Mae cymunedau Ynys Môn yn poeni am yr effaith mae mudo, twristiaeth, argaeledd tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc a theuluoedd yn ei gael ar y Gymraeg.

## AMGYLCHEDDOL

**Mae amgylchfyd naturiol amrywiol Ynys Môn yn adnodd pwysig.** Mae arfordir, llynoedd ac afonydd, corsydd a choedwigoedd yn cael effaith bositif ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

**Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang sy'n cael effaith ar lesiant yn Ynys Môn.** Mae'n arwain at gymunedau sydd o dan risg llifogydd uchel, tywydd eithriadol a thir lithriadau a rhoi ein byd natur a chynefinoedd o dan bwysau cynyddol.

**Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig er mwyn datgarboneiddio.** Yn Ynys Môn ceir cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol sy'n storio'r carbon sy'n cyfrannu at lefel nwyon tŷ gwydr.

**Mae Ynys Môn o dan bwysau amaethyddol cymharol uchel ac mae ffermio anghynaladwy yn achosi niwed i'r amgylchedd**. Mae angen edrych ar gyfleoedd i gefnogi rheoli tir yn gynaliadwy er mwyn cyfarnnu at datgarboneiddio.

## CYMDEITHASOL

**Mae pryder am lefel ordewdra ymysg plant 4-5 oed yn rhanbarthol.** Mae tystiolaeth o Loegr a'r Alban yn awgrymu fod y ganran yn debygol o godi o ganlyniad i effaith Covid-19 a'r cyfnod clo.

**Mae Covid-19 yn debygol o gael effaith hir-dymor ar iechyd y boblogaeth.** Mae hyn yn cynnwys effaith ar iechyd meddwl a chorfforol (er enghraifft, Covid-Hir) a gwaethygu nifer o anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli.

**Amlygwyd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fel her enfawr i gymunedau cefn gwlad.** Roedd amlder gwasanaethau bws yn golygu ei fod yn anodd i drigolion gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau, ac yn debygol o gael effaith waeth ar rai grwpiau, er enghraifft, pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn.

**Mae ysbryd cymunedol yn un o brif asedau'r sir ac amlygwyd hyn ym mharodrwydd trigolion i helpu ei gilydd yn ystod cyfnod Covid-19.**

**Mae diffyg cyswllt digidol yn rhwystr i bobl a busnesau'r sir**. Mae gweithio ac addysgu o bell yn ystod cyfnod Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd argaeledd band-eang.

## ECONOMAIDD

**Rhagwelir newidiadau yn sectorau gwaith ac i batrwm gwaith i'r dyfodol.** Mae angen sicrhau cyfleoedd hygyrch i bawb mewn  galwedigaethau fel gwyddoniaeth a thechnoleg.

**Mae'r canran uchel o bobl Ynys Môn yn gweithio yn y galwedigaethau crefftau medrus (sy'n cynnwys ffermwyr a gweithwyr amaeth). Mae Brexit a'r lleihad mewn grantiau a cefnogaeth ariannol wedi cael effaith ar y sector yma.**

**Mae tlodi o bob math yn bryder yn Ynys Môn.** Roedd ymateb i'r llyfrynnau drafft yn amlygu pryder am dlodi, mewn cyfnod be mae costau byw o bob math yn codi.

**Mae prisiau a fforddadwyedd tai yn broblem mewn rhai ardaloedd yn Ynys Môn.** Mae'nn cael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ardaloedd.

**Mae pryder am gyflwr economi leol y  'y stryd fawr' neu 'canol y dref'.** Amlygwyd hyn yn bennaf yn Ardal Llesiant Caergybi ac Ynys Cybi.

**O'i gymharu â ffigwr Cymru gyfan, mae canran uchel o adawyr ysgol blwyddyn 11 yn Ynys Môn yn NEET (gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)**

**Mae diffyg swyddi gwerth uchel yn cael effaith ar lesiant yr ardal.** Yn ogystal â'i effaith ar yr economi, mae hefyd yn ei gwneud yn anoff i gadw pobl ifanc yn y sir, ac felly'n effeithio'r iaith Gymraeg.

**Mae darpariaeth gofal plant yn ddrapariaeth pwysig i economi Ynys Môn**. Mae diffyg darpariaeth cynaliadwy yn effeithio cymunedau mewn rhai ardaloedd o'r sir ac mae hefyd pryder am y nifer o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

## DIWYLLIANNOL

**Mae'r amgylchedd naturiol yn addnodd holl bwysig sy'n cyfrannu at lesiant ac iechyd** gan eu bod yn galluogi trigolion aros yn actif.

**Mae diffyg gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn bryder i gymunedau Ynys Môn.** Mae canfyddiad fod hyn yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn golygu fod pobl ifanc y fro yn llai awyddus i aros yn y sir

**Mae'n anodd asesu effaith Covid-19 ar ddigwyddiadau diwylliannol a celfyddydol.** Mae'n fwlch data sydd angen sylw.

**Mae mannau gwyrdd yn holl bwysig i lesiant trigolion Môn, ond mae angen gwneud yn siwr fod mynediad hygyrch iddynt fel bod modd i bawb eu defnyddio.**

